# Cyngor Tref ***NEFYN***

## RHEOLAU'R MYNWENTYDD

Rheolau'r fynwent sydd wedi eu mabwysiadu gan Cyngor Tref Nefyn
Penodwyd Clerc y Cyngor fel Arolygydd a Thrysorydd y fynwent gyda'r awdurdod i gario allan y rheolau;

1. **Cyffredinol**
   a) Bydd llyfr cofrestru i'w gadw a'i lenwi gan yr Arolygydd.
   b) Ni chaniateir unrhyw waith a fydd yn amharu neu niweidio cyflwr y fynwent.
   c) Ni chaniateir plannu urhyw goed, bylbiau na phlanhigion ar fedd na pot blodau ychwanegol.
   d) Rhoddir hawl i'r ymgymerwr osod cawg cofeb yn ganol neu ar ochr Sylfaen y garreg fedd.
   e) Fod y bedd yw gadw yn weddus a thaclus.
   f) Bydd archwiliad blynyddol manwl o'r holl gerrig beddi a rhestrir unrhyw garreg rydd neu beryglus. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r teulu ac os nad oes gwelliannau yn cael eu gwneud yna rhoddir y garreg i orwedd ar y bedd

2. **Taliadau**
   a) Bydd pob taliad yn cael ei wneud trwy'r Clerc.
   b) Ffioedd Claddu - Gweler Atodlen Taliadau

3. **Trefniadau Ymgymerwyr**
   a) Ni wneir unrhyw waith yn y fynwent heb yn gyntaf dderbyn caniatâd yr Arolygydd.
   b) Nid oes gan ymgymerwr yr hawl i drefnu angladd heb yn gyntaf cysylltu hefo'r Arolygydd a'r Torrwr Beddi i drefnu dyddiad.
   c) Bydd rhybudd o leiaf 48 awr ymlaen llaw i'r Arolygydd ynglŷn ag angen i gladdu yn y fynwent.
   d) Bydd rhaid derbyn hawl claddu neu ganiatâd i osod carreg neu i ddodi casged mewn bedd gan yr Arolygydd.
   e) Mae'n rhaid claddu llwch a dim i'w wasgaru mewn unrhyw fan yn y fynwent.
   f) Bydd tystysgrif neu dderbynneb gan y cofrestrydd i'w cyflwyno o farwolaeth person sydd wedi ei gladdu a llecyn y bedd i'r Arolygydd cyn claddu unrhyw gorff neu lwch yn y fynwent.
   g) Mae yn rhaid i'r ymgymerwr anfon y ffurflen werdd neu arall a'r tal cyn y gellir claddu unrhyw gorff neu lwch yn y fynwent.
   h) Yr ymgymerwr sydd yn gyfrifol am holl waith y bedd ac nid y Cyngor.
   i) Mae cyfrifoldeb o dynnu ac ail osod carreg fedd yn disgyn ar y teulu. Ni does gan yr ymgymerwr hawl i symud carreg fedd heb yn gyntaf derbyn caniatâd yr Arolygydd.

4. **Torrwr Beddi**
   Bydd y Cyngor yn penodi Torrwr Beddi i weithio o dan yr Arolygydd ac i;
   a) Wneud yn siŵr nad yw'r gwaith yn amharu ar unrhyw fedd neu garreg
   b) Sicrhau bod gorchudd dros y cerrig cyfagos
   c) Rhaid gwneud gwaith gyda slabiau ym mhob bedd a chaeadau
   d) Bydd y torrwr beddi yn gyfrifol am archwilio beddi hyd at flwyddyn o ddyddiad claddu er sicrhau nad oes ymsuddiant.
   e) Bydd y Cyngor yn archwilio'r gwaith yn achlysurol.

Arwyddwyd: Mared Llywelyn Williams Cadeirydd 2024/2025

Dyddiad: 14/05/2024

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com